# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Sue Jones | Adran Etholiadol: | Tre-gŵyr |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

*Mae'r adran hon yn cynnwys eich gweithgareddau ar ran eich etholwyr. Rhestrwch, neu gwnewch sylwadau ar weithgareddau megis nifer y cymorthfeydd rydych wedi'u cynnal a chefnogaeth arall rydych wedi'i rhoi i fentrau'r etholaeth. Os oes ymgyrchoedd mawr wedi bod ar waith, rhestrwch y rhain yn Adran 4.*

Cymorthfeydd misol yn Llyfrgell Tre-gŵyr ar fore Sadwrn lle roeddwn yn rhoi cyngor i breswylwyr ar faterion unigol.
Adroddiadau misol i Gyngor Cymuned Tre-gŵyr ar fy ngweithgareddau.
Roeddwn yn rhoi gwybodaeth ar Facebook er mwyn rhoi gwybod i breswylwyr am fy ngweithgareddau.
Roeddwn yn bresennol mewn cyfarfodydd llywodraethwyr yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd.
Roeddwn yn bresennol mewn cyfarfodydd yng Ngorsaf Heddlu Gorseinon a'r Adran Tai er mwyn trafod materion y pentref ac i drafod atebion.
Parheais i bwyso ar Network Rail ynghylch materion parcio yn yr orsaf drenau.
Cyd-drafodais â'r adran Priffyrdd er mwyn cyflwyno parcio i breswylwyr.
Aethpwyd i'r afael â materion diogelwch y pentref gyda'r adran Priffyrdd drwy osod bolardiau y tu allan i Ysgol Gyfun Tre-gŵyr a'r tu allan i CK's ar Heol Sterry. Gosodwyd rhwystrau diogelwch wrth fynedfa Cyfadeilad chwaraeon Elba.
Rwyf wedi rhoi help ariannol i glwb rygbi Tre-gŵyr i symud y fynedfa i gerddwyr er diogelwch, a gosod ffens newydd er mwyn gwella'r agwedd weledol wrth fynedfa'r pentref.
Rwy'n parhau i fonitro'r materion parcio ar Deras Fairwood.
Rwyf wedi cynorthwyo Grŵp Hanes Llyfrgell Tre-gŵyr wrth iddynt gyflwyno cais am fyrddau hanes o amgylch y pentref.
Wedi ceisio hybu creu "Fforwm i Rieni" yn y feddygfa.
Fel mesur diogelwch, gosodwyd y ffensys o amgylch y gamlas yn yr Elba, a thalwyd amdanynt, o fy nghyllideb gymunedol.
Trefnais fod cyfarpar chwarae ychwanegol yn cael ei osod yn y parc ar Heol y Parc.
Crëwyd mwy o leoedd parcio yn Llys Elba ar gyfer preswylwyr â cheir.
Roeddwn yn ymdrin â nifer o faterion unigol ar gyfer preswylwyr, cwynion am faw cŵn, canclwm Japan, problemau o ran coed a cheisiadau am dai yn rheolaidd.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Rhianta Corfforaethol | 5 | / | 6 | 83.33 | % |
| Y Cyngor | 15 | / | 16 | 93.75 | % |
| **Cyffredinol** | **20** | **/** | **22** | 90.91 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Gwasanaethau I Oedolion | 9 | / | 13 | 69.23 | % |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc | 0 | / | 1 | 0.00 | % |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 9 | / | 12 | 75.00 | % |
| Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | 1 | / | 1 | 100.00 | % |
| Ysgolion | 7 | / | 10 | 70.00 | % |
| Trechu Tlodi | 11 | / | 12 | 91.67 | % |
| **Cyffredinol** | **37** | **/** | **49** | 75.51 | **%** |

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

*Mae'r adran hon yn cynnwys cyfrifoldebau'r cyngor, e.e. pwyllgorau na chânt eu rhestru yn adran 2 uchod. Rhestrwch gyfrifoldebau rydych wedi ymgymryd â hwy yn ystod y flwyddyn. Gellir cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd a gofnodir yma hefyd.*

Cyngor Cymuned Tre-gŵyr.
Llywodraethwr Ysgol Gynradd Tre-gŵyr ac ysgolion cyfun y pentref.
Cymdeithas Gefeillio Tregŵyr
Grŵp Hanes Lleol Llyfrgell Tregŵyr
Cyfeillion Coetir a Mannau Agored Tregŵyr

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

*Mae'r adran hon yn ymwneud â mentrau sylweddol neu brosiectau arbennig a gynhaliwyd ar ran etholwyr neu Ddinas a Sir Abertawe. Er enghraifft, efallai y byddech wedi bod yn rhan o weithgor neu grŵp gweithredu neu wedi'i arwain i astudio neu adrodd ar weithgaredd sylweddol. Rhowch grynodeb o'r gweithgaredd, y gwaith a'r canlyniad os yw wedi dod i ben.*

Mae Grŵp Prynhawn Dydd Iau yn parhau i gwrdd yn Siop Goffi Billy Suttons er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag unigrwydd.
Roedd gosod y ffens o amgylch y gamlas yn hanfodol er mwyn i'r ysgol gynradd allu defnyddio'r ardal goediog Coedwig Elba.
Mae angen rhagor o gynnydd ar Grŵp Hanes Lleol Llyfrgell Tre-gŵyr er mwyn sefydlu byrddau hanes o amgylch y pentref i annog dealltwriaeth o dreftadaeth yn ein hardal.
Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorwyr
Yn ychwanegol at fy rôl fel cynghorydd sirol, roeddwn yn aelod o Gyngor Cymuned Tregŵyr. Roeddwn yn llywodraethwr yn ysgolion cynradd ac uwchradd y pentref. Roeddwn yn aelod o Gymdeithas Gefeillio Tre-gŵyr, Grwp Hanes Lleol Llyfrgell Tre-gŵyr a Chyfeillion Coetir a Mannau Agored Tre-gŵyr. Roeddwn yn aelod gweithgar o'r broses graffu.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

*Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth neu'r sgiliau arbennig rydych yn eu cyfrannu i'ch rôl fel cynghorydd. Er enghraifft, efallai'ch bod yn gynlluniwr arbenigol neu efallai bod gennych brofiad penodol o un agwedd ar weithgareddau'r cyngor. Nodwch a oes unrhyw beth arbennig rydych yn ei gyfrannu i'r rôl neu a oes unrhyw hyfforddiant arbennig rydych wedi'i gael sy'n eich helpu yn eich rôl.*

11/05/2017 - Côd Ymddygiad
17/03/2017 - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ymlyniad

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

*Mae'r adran hon er mwyn i chi nodi unrhyw beth arall rydych yn meddwl y dylai'ch etholwyr fod yn ymwybodol ohono.*

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad:** | |
|---|---|